OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 No. 3364

# Gorchymyn Defaid a Geifr (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2009

## RHAN 3

### Adnabod anifeiliaid

**Adnabod anifeiliaid a anwyd cyn 31 Rhagfyr 2009 a na chawsant eu hadnabod erbyn hynny ac y bwriedir eu cigydda**

**12.**—(1) Ar gyfer anifeiliaid a anwyd cyn 31 Rhagfyr 2009 ac y bwriedir eu cigydda cyn 12 mis oed ac na fwriedir eu hallforio, awdurdodir y dull adnabod yn Adran A.7 o'r Atodiad i Reoliad y Cyngor fel dull amgen yn lle'r modd adnabod.

(2) Rhaid i'r cod adnabod at ddibenion Adran A.7 o'r Atodiad i Reoliad y Cyngor fod yr un fath â'r hyn a nodir yn is-baragraff (a) i (c) o erthygl 11(5).

(3) Rhaid i unrhyw anifail a gafodd ei adnabod â'r modd adnabod y cyfeirir ato ym mharagraff (1) ("*y tag adnabod cyntaf*") gael ei adnabod ag ail fodd adnabod yn unol â pharagraffau (4) i (6)—

(a) os na chaiff ei gigydda cyn 12 mis oed; neu

(b) os caiff ei draddodi i'w allforio.

(4) Rhaid i'r ail fodd adnabod fod naill ai—

(a) yn dag adnabod ychwanegol neu, onid yw'n fwriad allforio'r anifail, yn datŵ, ac iddo'r un cod adnabod ag sydd ar y tag adnabod cyntaf; neu

(b) yn ddau dag adnabod ychwanegol neu, onid yw'n fwriad allforio'r anifail, yn dag adnabod a thatŵsy'n dwyn—

(i) y llythrennau "UK";

(ii) nod y ddiadell neu nod yr eifre ar gyfer y ddiadell neu'r eifre lle y gosodir y modd adnabod ychwanegol; a

(iii) Rhif unigryw.

(5) Pan osodir dau fodd adnabod ychwanegol rhaid i'r ceidwad gofnodi gwybodaeth am ychwanegu'r modd adnabod newydd gan gynnwys y cod adnabod llawn ar y modd adnabod ychwanegol a'r llythrennau a nod y ddiadell neu nod yr eifre ar y modd adnabod gwreiddiol yn y gofrestr onid yw'r anifail ar eu daliad genedigol.

(6) Yn achos anifeiliaid a draddodir i'w hallforio rhaid i'r ceidwad osod yr ail fodd adnabod cyn i'r anifail adael y daliad gwreiddiol.